

Digwyddiadau 2026 – Rhaglen Gerddoriaeth



Dydd Sadwrn 29 a dydd Sul 30 Awst 2026

Mae'r rhaglen gerddoriaeth yn digwydd rhwng 12pm a 5pm ar y ddau ddiwrnod yn y ddwy ardal berfformio.

Rhwng 10am ac 12pm, bydd cerddoriaeth dros y system sain ar y llwyfan llai a, lle bo'n bosibl, bydd perfformiadau cymunedol ar y prif lwyfan i ymwelwyr eu mwynhau nes bod yr actau byw yn dechrau!

Mae'r Prif Lwyfan ar Crescent Road y tu ôl i Gastell Caerffili.

Dydd Sadwrn

12.00pm - 12.45pm	The Midnight Hour Band
1.10pm - 2.10pm	The Oldfield Brothers
2.40pm - 3.40pm	Xempa
4.00pm - 5.00pm	PRIF ARTISIAID: MONKJACK FUNK

Dydd Sul

10.00am. - 10.30am	Sound of Hope (perfformiad cymunedol)
12.00pm - 12.45pm	Jane Williams Band
1.10pm - 2.10pm	Moonstorm
2.40pm - 3.40pm	Casual Six
4.00pm - 5.00pm	PRIF ARTISTIAID: DIONNE BENNETT & THE PEPPERSEEDS

Ardal Berfformio Canol y Dref – Gyferbyn â'r Castell / Sports Direct

Dydd Sadwrn

12.05pm - 12.50pm	Russell Jones Jr
1.10pm - 2.10pm	Frankie Wesson Duo
2.30pm - 3.30pm	Gypsy Flower
4.00pm - 5.00pm	The Stamford Hillbilly Street band

Dydd Sul

12.05pm - 12.50pm	Bryony Sier
1.10pm - 2.10pm	Mic & Fins


2.30pm - 3.30pm
4.00pm - 5.00pm

The Kingman Project
Hot Gin Swing Duo

Gwybodaeth am Artistiaid – Dydd Sadwrn

Prif Lwyfan y Tŵr Cam ar Crescent Road, y tu ôl i Gastell Caerffili

Midnight Hour Band



Mae Midnight Hour Band yn un o fandiau dynwarediadau pop hynaf a mwyaf poblogaidd De Cymru, gan ddod â degawdau o gerddoriaeth braf i gynulleidfaoedd ledled y rhanbarth. Gyda set llawn caneuon eiconig o'r 1960au hyd at y 1990au, maen nhw'n cyflwyno taith fywiog drwy rai o'r eiliadau gorau yn hanes pop i ddeffro'ch traed. O glasuron oesol ABBA i ganeuon dwys Billy Ocean ac egni grymus Belinda Carlisle, mae eu perfformiadau'n sicr o gael y gynulleidfa i gydganu a

dawnsio o'r cychwyn cyntaf.

Mae Midnight Hour Band yn creu awyrgylch sydd mor hiraethus ag y mae'n drydanol. P'un a ydych chi'n ail-fyw atgofion annwyl neu'n dod o hyd i'r clasuron hyn am y tro cyntaf, mae cerddoriaeth soffistigedig a sain fywiog y band yn golygu bod pob perfformiad yn dathlu cerddoriaeth pop ar ei orau. Mae eu gallu i gysylltu â chynulleidfaoedd o bob oed wedi eu gwneud nhw'n boblogaidd iawn ar y sîn gerddoriaeth fyw yn Ne Cymru. Bydd y perfformiad hwn yn dwyn ynghyd nifer o berfformwyr profiadol talentog sy'n cyfrannu'n unigol at eu sain nodweddiadol a'u sioe fyw ddeinamig:

Peter Hurd – Gitâr a llais cefndir

Pawel Synowiecki – Bas

Ian Williams – Drymiau

Lisa-Marie Wall – Llais.

Dilynwch nhw ar Facebook: <https://www.facebook.com/profile.php?id=100064329653888>

The Oldfield Brothers



Mae The Oldfield Brothers yn darparu sŵn dewrder, dawnio, a gwreiddioldeb digyfaddawd – grŵp hollol wreiddiol sy'n cyflwyno naws graff, gyfunol sy'n gwrthod eistedd yn llonydd. Wrth galon y band mae'r cyfansoddwr caneuon Baz Oldfield (o The Abs a Dr Bison), y mae ei ysgrifennu crai, greddfodol yn ysgogi sain sy'n wrthryfelgar ac yn felodig iawn. Wrth ei ochr, mae ei frawd John "The Rev" Oldfield yn chwarae'r drymiau, yn creu rhythmau ysgogol pwerus, sy'n rhoi pwls di-baid i'r band.

Yn olaf, mae triawd aruthrol o gerddorion: Richard Glover (DubWar) yn chwarae bas, gan ddod â dyfnder isel â dylanwad dub; a Richard Jackson yn chwarae'r gitâr – cerddor medrus a chynhyrhydd uchel ei barch yn ei rhinwedd ei hun – yn cyfoethogi'r gymysgedd gyda gwedd, egni miniog a chywirdeb sonig. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffurfio band sy'n ffynnu ar gyferbyniad: tynn ond anrhagweladwy, soffistigedig ond garw.

A hithau wedi'i disgrifio gan y band fel "pync melodig", mae eu cerddoriaeth yn bell o fod yn undimensiwn. Mae'n gyfuniad aflonyddgar sy'n cyfuno adrodd straeon cerddoriaeth gwlad, agwedd roc, brys pync, a thu hwnt – yn cyfuno genres i rywbeth sy'n teimlo'n gyfarwydd ond yn newydd ar yr un pryd. Mae yna onestrwydd crai sy'n rhedeg trwy bob trac, gydag egni sy'n teimlo'n frys, yn fyw, ac yn gwbl ddiymddiheuriad.

Nid cerddoriaeth gefndir yw hon – mae hwn yn fand sy'n gofyn am sylw. Gallech chi ddisgwyl rhythmau ysgogol, bachau trawiadol, a pherfformiad byw sy'n gwneud argraff ac yn aros gyda chi ymhell ar ôl y nodyn olaf.

Dilynwch nhw ar Facebook: <https://www.facebook.com/theoldfieldbrothers>

Xempa



Ac yntau'n dod i'r amlwg o Dde Cymru, mae XEMPA yn fand cyfunol sy'n cymysgu genres ac yn ailddiffinio ffiniau sain gyfoes. Mae'r band yn cyfuno cerddoriaeth enaid, hip-hop a barddoniaeth lafar gydag elfennau R&B, ffync a roc, i greu cerddoriaeth sy'n teimlo'n bersonol iawn ac yn bwerus o eang.

Fe wnaeth XEMPA ddechrau gyda grŵp o gerddorion medrus mewn ystafelloedd ymarfer a stwdios a daethon nhw'n gyfeillion yn gyflym. Cyn

hir, fe wnaeth yr hyn a ddechreuodd fel cydweithredu ddatblygu i fod yn rhywbeth mwy bwriadol: gweledigaeth ar y cyd i greu cerddoriaeth sy'n dathlu creadigrwydd, unigolrwydd a mynegiant dilys.

Wrth wraidd sain XEMPA, mae rhyngweithio cerddorol cyfoethog – adrannau rhythm tynn, llinellau bas cyflym, offeryniaeth ddeinamig a lleisiau mynegiannol – wedi'u plethu ynghyd ag adrodd straeon telynegol ar sail profiad byw. Mae eu gwaith yn archwilio themâu hunanfyfrio a grymuso, gan gyfuno barddoniaeth lafar â melodïau bachog a threfniannau bywiog sy'n trosglwyddo'n ddi-dor i'r llwyfan byw.

Gyda sain sy'n gwrthod cael ei gyfyngu a neges wedi'i gwreiddio mewn dilysrwydd, mae XEMPA yn cynrychioli ton newydd o artistiaid annibynnol – cydweithredol, di-ofn a chreadigol.

Dilynwch nhw ar Facebook:

<https://www.facebook.com/profile.php?id=61559157606437&sk=about>

Dolen i gerddoriaeth: <https://linktr.ee/Xempamusic>

PRIF ARTISTIAID: MONKJACK

Mae Monkjack yn fand ffync o Gaerdydd sy'n adnabyddus am eu perfformiadau crai, llawn egni a rhythm cyflym.



Mae Monkjack yn bwerdy cerddoriaeth ffync o Gaerdydd, sy'n enwog am eu perfformiadau crai, llawn egni a rhythm cyflym sy'n ennill sylw o'r curiad cyntaf. A hwythau'n disgrifio eu hunain fel "band ffync crai sy'n dod â'r hwyl a'r ffync", maen nhw'n byw yn unol â hynny – gan gyflwyno sain feiddgar, ddigyfaddawd sy'n cyfuno ffync clasurol, enaid ac R&B

gorau yn un profiad byw trydanol.

Gyda llinellau bas grymus, adran rhythm dynn a rhythmau bachog heintus, mae Monkjack yn creu sain sy'n hiraethus ac yn fywiog ar yr un pryd. Mae eu perfformiadau yn fwy na gigs yn unig – maen nhw'n ddathliadau, lle mae cynulleidfaoedd yn ymgolli mewn ton o rhythm, symud, a llawenydd cerddorol pur. P'un a yw'n nod pen hamddenol neu reoli'r llawr dawnsio, mae Monkjack yn gwybod yn union sut i gael cynulleidfa i symud.

Maen nhw'n ffefrynnau cadarn ar y sîn gerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd, maen nhw wedi meithrin dilyniant ffyddlon trwy berfformiadau nodedig mewn lleoliadau poblogaidd fel North Star, Caerdydd. Mae eu henw da am gerddoriaeth dynn, cemeg ddiymdrech, a phresenoldeb diamheuol ar y llwyfan yn golygu bod pob sioe yn teimlo fel achlysur arbennig. Gan gyfuno deunydd gwreiddiol â chaneuon dynwarediad wedi'u hail-greu'n fedrus, maen nhw'n dod ag agwedd ffres i alawon cyfarwydd wrth arddangos eu harddull unigryw eu hunain.

Mae Monkjack yn byw yn unol ag enw sy'n ysgogi egni gwyllt a rhythmau cyfareddol, yn canolbwyntio ar gysylltiad – rhwng y band, y gerddoriaeth, a'r gynulleidfa. Gallwch chi ddisgwyl rhythmau beiddgar, egni enaid, ac awyrgylch llawn hwyl sy'n mynd y tu hwnt i'r nodyn olaf.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/monkjackfunkband>
Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/monkjackfunkband/>

Gwybodaeth am Artistiaid – Dydd Sadwrn

Ardal Berfformio Canol y Dref – Gyferbyn â'r Castell / Sports Direct

Russell Jones Jr:



Fe wnaeth Russell, yn cerddor jazz swing talentog, ddod i'r amlwg am y tro cyntaf fel aelod o Only Boys Aloud, a gyrhaeddodd rownd derfynol Britain's Got Talent yn 2012.

Ac ni wnaeth stopio yno. Yn ddiweddar, mae wedi bod ar y llwyfan ar The X Factor, lle roedd cynulleidfaoedd wrth eu boddau gyda'i fersiwn bythgofiadwy o'r clasur Disney "I Wanna Be Like You."

Mae Russell wedi rhannu'r llwyfan gyda rhai o enwau mwyaf y byd cerddoriaeth, gan gynnwys Ellie Goulding, The Saturdays, Conor Maynard, a Becky Hill, ac mae wedi

perfformio o flaen cymeriadau poblogaidd Amy Childs a Gemma Collins o The Only Way Is Essex.

Yn fwy diweddar, mae Russell wedi perfformio mewn digwyddiadau proffil uchel megis Sioe Flodau'r RHS yn Malvern, lle wnaeth ymddangos ochr yn ochr ag enwogion fel Alan Titchmarsh, Monty Don a Mary Berry. Mae hefyd wedi diddanu cynulleidfaoedd yng Ngŵyl Pride Cheltenham, gan rannu'r llwyfan ag actau fel Big Brovaz a Booty Luv.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/russell.jones.7798>

Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/russelljonesjr96/>

Gwefan: <https://russelljonesmusic.wixsite.com/home>

Frankie Wesson Duo



Fe wnaeth y gantores-gyfansoddwraig arobryn Frankie Wesson ddechrau ysgrifennu caneuon a pherfformio yn ei thref enedigol, y Fenni, yn 16 oed. Mae ei chaneuon sinematig yn tynnu ysbrydoliaeth o'i phrofiadau personol o hiraeth chwerwfelys, cariad annychweledig, pryderon yn ystod yr arddegau a'r realiti cymhleth o dyfu i fyny yn LHDT+.

A hithau wedi'i magu yn gwrando ar artistiaid fel Alanis Morissette, Eva Cassidy a Stevie Nicks, mae Wesson hefyd yn cymryd ysbrydoliaeth gan gymysgedd o artistiaid cyfoes fel Deaf Havana, Taylor Swift, MUNA a Gabrielle Aplin.

Mae caneuon gwreiddiol Frankie wedi cael sylw ar BBC Radio 6, BBC Radio Wales A-List a BBC Introducing, yn ogystal â rhestrau chwarae Spotify 'Chilled Pop Hits' a 'New Music Friday'.

Fe wnaeth y cylchgrawn Soundboard Abertawe ddisgrifio cerddoriaeth Wesson fel 'bythol; yn apelio at y rhai sy'n hoffi Fleetwood Mac a Paramore fel ei gilydd, heb gyfaddawdu na gwanhau'r arddull sy'n gwneud cerddoriaeth Wesson ei hun.'

Mae hi wedi perfformio yn Pride Cymru yng Nghastell Caerdydd, Gŵyl How the Light Gets In yn y Gelli ac yn Llundain, Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd, Gŵyl Gerdd Trefynwy, Gŵyl Ymylol Abertawe, Pride in the Port, Pride Caerffili, Down on the Farm a llawer mwy.

Dilynwch ar Facebook:

<https://www.facebook.com/search/top?q=frankie%20wesson%20music>

Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/frankiewesson/>

Gypsy Flower



Mae Jade a Tom wedi bod yn y busnes cerddoriaeth ers dros 30 o flynyddoedd! Ar ôl i Jade gymryd rhan mewn sioeau talent a chael ei sioe ei hun ar ITV sef 'Jade's Journey', penderfynodd yr hoffai fod yn cŵl – felly trodd at Tom. Cyfarfu'r ddau yn 2002, pan ymunodd Jade â grŵp gwreiddiol Tom sef Levin. Aethon nhw ati i ysgrifennu caneuon gyda'i gilydd, teithio o gwmpas y wlad a syrthio mewn cariad.

Ar ôl sefydlu'r grŵp Kozmic Drive a threulio deng mlynedd yn chwarae caneuon pobl eraill mewn lleoliadau a gwersylloedd gwyliau ledled y DU,

cymerodd y ddau saib i ddechrau teulu.

23 o flynyddoedd a 2 blentyn yn ddiweddarach, maen nhw'n ôl fel y deuawd Gypsy Flower. Ar hyn o bryd, maen nhw'n perfformio lle a phryd bynnag y gallan nhw, yn ysgrifennu gyda'i gilydd, yn diddanu pobl ac yn cofio pam fod cerddoriaeth wedi bod yn rhan mor fawr o'u hanes ers y cychwyn.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/gypsyflowerduo>

Dilynwch ar Instagram: https://www.instagram.com/gypsy_flower_music/

The Stamford Hillbilly Street Band



Rydyn ni wrth ein bodd o groesawu'r band cyffrous hwn o Lundain yr holl ffordd o Hackney – band gwirioneddol unigryw sy'n dod â sŵn ffres, byd-eang i'r llwyfan. Dan arweiniad y canwr, gitarydd a chyfansoddwr caneuon Carlton, mae'r grŵp yn cyfuno cymysgedd eclectig o ddylanwadau yn ddiymdrech, gan gyfuno bluebeat ska, calypso, rhythmau Afro, klezmer, cerddoriaeth gwlad, ac enaid i mewn i un tapestri cerddorol cyfoethog a bywiog. Y canlyniad yw sain sy'n teimlo'n fythol ac yn gwthio ffiniau, ar sail traddodiad ond yn llawn egni cyfoes.

Mae eu cerddoriaeth yn creu seinwedd gadarnhaol, ddyrchafol – un sy'n atseinio'n ddwfn yn y byd heddiw, gan gynnig ymdeimlad o undod, cynhesrwydd a chysylltiad. Mae pob perfformiad yn gwahodd cynulleidfaoedd i ddod at ei gilydd, gyda rhythmau cyflym, melodïau heintus, ac ysbryd o gynhwysiant sy'n rhagori ar genre a chefnidir. Mae'n gerddoriaeth sy'n gwneud i chi symud, yn ogystal â gwneud i chi deimlo.

Y tu ôl i'r sain mae casgliad o gerddorion profiadol y mae eu gyrfaedd trawiadol yn cynnwys cydweithio ag eiconau go iawn o'r sîn gerddoriaeth fyd-eang. Gyda chysylltiadau ag eiconau fel Lee "Scratch" Perry, Mad Professor, Rico Rodriguez, Vin Gordon, Roy Shirley, The Maccabees, Zion Train, a Bob Andy, mae eu profiad a'u celfyddydwaith yn disgleirio ym mhob nodyn. Mae'r dyfnder hwn o dreftadaeth gerddorol yn dod â dilysrwydd, enaid, a chyfoeth diamheuol i'w perfformiadau.

Gallwch chi ddisgwyl set sy'n llawn lliw, rhythm, ac egni llawn hwyl – taith fythgofiadwy ar draws cyfandiroedd a diwylliannau, wedi'i chyflwyno gydag angerdd, sgil a llawenydd.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/search/top?q=stamford%20hillbilly>

Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/stamfordhillbillystreetband/>

Gwybodaeth am Artistiaid – Dydd Sul

Prif Lwyfan y Tŵr Cam ar Crescent Road, y tu ôl i Gastell Caerffili



Sound of Hope (perfformiad cymunedol)

Cymundod angerddol o gerddorion a chantorion o eglwysi ledled Caerffili yw Sound of Hope. Mae'r aelodau wedi'u huno gan genhadaeth gyffredin i ddod â cherddoriaeth addoli Gristnogol gyfoes i galon y gymuned. Cafodd y grŵp ei sefydlu yn wreiddiol ar gyfer dathliadau Jiwbil'r Frenhines ym mis Mehefin 2022, cyn adeiladu momentwm ac ailymgynnull ar gyfer Gŵyl y Caws Bach, Caerffili ym mis Medi 2022.

Agorodd Sound of Hope yr ŵyl ar fore Sul gyda hanner awr o ganu pwerus. Cafodd torf fawr frwdfrydig ei denu gan eu perfformiad, gyda llawer o bobl yn ymuno â'r addoli a'r dathlu. Roedd presenoldeb y grŵp yn foment nodweddiadol i eglwysi lleol – a ddaeth â ffydd, cerddoriaeth a chymuned ynghyd mewn lleoliad cyhoeddus llawn llawenydd.

Dywedodd Pastor Steve Harris, un o drefnwyr y digwyddiad, ei fod yn gyfle gwych i'r eglwys fod allan ar y strydoedd, yn rhannu newyddion da lesu a chyfleu neges o obaith i'r holl wrandawyr.

Dolen i Facebook:

https://www.facebook.com/connectlifechurch/about_details?locale=en_GB



Jane Williams Band

Mae Jane yn gerddor a chantores hynod fedrus, yn perfformio yn unigol, mewn deuawdau, mewn pumawd jazz, a chydweithredu â bandiau amrywiol, gan gynnwys Wild Willy Barrett. Yn nodedig, mae Jane wedi perfformio ar albwm gyda Van Morrison yn 2016 ac wedi gwneud ymddangosiad nodedig ar raglen Channel 4 "The Piano."

Fe wnaeth y band ffurfio wrth i Pete a Jane gynnal noson meic agored mewn tafarn leol yng Nghaerdydd, lle wnaeth Spencer

a Simon ymuno, a dod yn aelodau. Roedd hyn yn llwyfan delfrydol i Jane gyflwyno ei chaneuon gwreiddiol, a gafodd ymateb cadarnhaol gan y gynulleidfa. O ganlyniad, fe wnaethon nhw benderfynu ffurfioli'r band a recordio albwm.

Mae repertoire y band yn cynnwys amrywiaeth o ganeuon gwreiddiol a chaneuon dynwarediad poblogaidd, wedi'u cynllunio i annog i'r gynulleidfa ddawnsio.

Ar gyfer Gŵyl Caws Caerffili 2026, mae Jane (llais, allweddellau, ukulele) yn camu i'r llwyfan ochr yn ochr â rhestr wych o gerddorion – Pete Mathison (gitâr), Spencer Hodges (bas), a Simon Groves (drymiau) – gan addo perfformiad byw bywiog a diddorol sy'n llawn egni, cerddoriaeth a swyn.

Mae albwm Jane, "Listen," ar gael ar bob platfform ffrydio mawr, gan gynnwys Spotify, Amazon Music, iTunes, ac eraill. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.janewilliamsmusic.com / 07974 155052 / songbird2407@gmail.com

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/janewilliamsmusic>

Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/songbird2407/>

Dilynwch ar Spotify:

<https://open.spotify.com/artist/6l4DxoK40foOv36jwv3mBn?si=136eBZCET06StMWH4rdMmg>

Moonstorm



Mae Moonstorm yn dychwelyd i'r llwyfan fel band pum darn deinamig, gan ehangu eu deuawd poblogaidd i sain fwy llawn a chyfoethog wrth gadw calon ac enaid eu harddull wreiddiol. Dan arweiniad Amanda Seed yn canu a chwarae'r gitâr, ochr yn ochr â Viv Lock yn chwarae'r prif gitâr arweiniol, mae'r band bellach yn dod â phrofiad roc hyd yn oed yn fwy, sy'n fwy ymdrochol, gan ychwanegu bas, drymiau, ac allweddi i ddyrchafu eu sain.

Gan gyflwyno taith hudolus trwy hanes roc a phop, mae Moonstorm yn perfformio cymysgedd eclecticig o ganeuon dynwarediad sy'n rhychwantu o'r 1960au hyd at y siartiau heddiw. Mae eu rhestr o ganeuon yn cynnwys artistiaid eiconig gan gynnwys Tom Petty, Heart, AC/DC, Dua Lipa, Fleetwood Mac, Queen, Neil Young a llawer mwy – pob trac wedi'i ail-ddychmygu gyda'u dawn a'u cemeg gerddorol unigryw eu hunain.

Ar gyfer y perfformiad arbennig hwn, bydd y band yn arddangos set acwstig hyfryd, gan dynnu sylw at ochr ysgafnach, fwy personol roc. Mae trefniannau syml, harmonïau cyfoethog a cherddoroldeb llawn mynegiant yn dod at ei gilydd i greu awyrgylch cynnes a deniadol sy'n swyno cynulleidfaoedd o'r dechrau i'r diwedd.

Gyda'u haelodau estynedig a'u harddull nodweddiadol, mae Moonstorm yn addo set sy'n llawn hiraeth, cerddoriaeth, ac egni llawn hwyl – yn berffaith ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wrth eu boddau gyda roc gydag ychydig o enaid ac adrodd straeon.

Dilynwch ar Facebook:

<https://www.facebook.com/profile.php?id=100069346655412&sk=about>

Dolen i gerddoriaeth: YouTube/Moonstorm band

The Casual 6

Mae The Casual 6 yn fand dynwarediad ychydig yn wahanol – yn cymryd caneuon poblogaidd â'u hailddyfeisio nhw yn eu harddull unigryw, ffyni, llawn egni eu hun. Gan gyfuno genres a disgwyliadau, maen nhw'n trawsnewid traciau poblogaidd yn berfformiadau llawn egni, sy'n llawn syrpreisys cerddorol a dawn gellweirus.

Camwch i'w byd lliwgar a byddwch chi'n dod o hyd i fwy na dim ond cerddoriaeth wych. Gyda phersonoliaethau beiddgar, egni heintus a'u "siwtiau gwirion" nodweddiadol, nid yw Casual Six yn



chwarae gigs yn unig – maen nhw'n creu profiadau. Mae pob set yn daith chwareus, sy'n cymysgu genres, lle mae ffyn, pop, roc a mwy yn dod at ei gilydd mewn ffordd sy'n cadw sylw cynulleidfaoedd, a'u cadw nhw yn dawnsio.

Mae'r band yn gymysgedd bywiog o dalent, sy'n cynnwys dau o bobl leol falch o Gaerffili, ochr yn ochr ag aelodau o mor bell i ffwrdd â Manceinion a Stroud. Mae'r

cyfuniad hwn o gefndiroedd yn bwydo i'w sain ddeinamig, gan gyfuno gweithrediad cerddorol tynn gydag ymdeimlad o hwyl nad yw'n rhy ddifrifol.

Mae Casual Six, sy'n perfformio'n rheolaidd mewn gwyliau yn y DU, wedi adeiladu enw da am berfformiadau byw gwefreiddiol sy'n dod â thorffeydd at ei gilydd. Ar hyd y ffordd, maen nhw wedi rhannu llwyfannau gydag amrywiaeth ecleitig o artistiaid, gan gynnwys The Proclaimers, Kula Shaker a Basement Jaxx, gan dynnu sylw at eu hyblygrwydd a'u hapêl eang i gynulleidfaoedd.

Wrth wraidd popeth maen nhw'n ei wneud mae ethos syml: dylai cerddoriaeth fod yn ymwneud â llawenydd, cysylltiad a pheidio â chymryd bywyd yn rhy ddifrifol. P'un a yw'n faes gŵyl llawn neu ddathliad lleol, mae Casual Six yn gwarantu awyrgylch llawn hwyl sy'n gwneud i bobl ddawnsio a dychwelyd am fwy.

Dewch i'w gweld nhw yn fyw yng Ngŵyl Caws Caerffili ddydd Sul 30 Awst a dysgu pam mae Casual Six wedi dod yn ffefryn cadarn ar y sîn gerddoriaeth fyw – oherwydd yn eu byd nhw, nid geiriau yn unig yw 'hwyl' a 'gwiriondeb'... maen nhw'n ffordd o fyw.

Dilynwch ar Facebook <https://www.facebook.com/profile.php?id=61566315564877>

Dilynwch ar Instagram https://www.instagram.com/the_casual_6/

Dilynwch ar YouTube <https://www.youtube.com/@casualsix7917>

PRIF ARTISTIAID: DIONNE BENNETT & THE PEPPERSEEDS



Dan arweiniad y gantores bwerus ac amryddawn Dionne Bennett, mae The Pepperseeds yn grŵp o Gaerdydd sy'n cyflwyno cyfuniad bywiog o ganeuon enaid, ffync, jazz a reggae. Mae'r band yn enwog am eu hegni heintus a'u cerddoriaeth soffistigedig, ac maen nhw'n creu profiad byw llawn hwyl sy'n cyfuno clasuron bythol gyda dawn wreiddiol.

Mae The Pepperseeds wedi'u hadeiladu o amgylch grŵp tynn o gerddorion medrus iawn y mae eu rhyngweithio deinamig yn sail i sain nodweddiadol y band. O linellau bas

cyflym ac adrannau rhythm pigog, i waith allweddi a gitâr mynegiannol, mae'r ensemble yn cydbwysu manwl gywirdeb â digymelldeb – gan ganiatáu i bob perfformiad deimlo'n ffres, diddorol ac wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn cerddoriaeth fyw.

Gyda'i gilydd, mae Dionne Bennett & The Pepperseeds wedi datblygu repertoire llawn enaid sy'n rhychwantu genres, gan dynnu ar ddylanwadau gan eiconau fel Nina Simone wrth blethu elfennau o ffync, jazz Lladin ac enaid cyfoes. Mae eu perfformiadau yn dathlu cyfoeth traddodiadau Cerddoriaeth Du wrth ddod ag agwedd modern, hygyrch sy'n apelio at amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Mae'r band yn enwog am eu sioeau byw egni uchel. Maen nhw wedi perfformio ledled De Cymru ac mewn digwyddiadau nodedig gan gynnwys Gŵyl Jazz Aberhonddu, gan adeiladu enw da am swyno cynulleidfaoedd gyda'u cynhesrwydd, dilysrwydd a rhagoriaeth gerddorol.

Gyda sain sy'n bythol ac yn gyfoes, mae Dionne Bennett & The Pepperseeds yn ymgorffori ysbryd cerddoriaeth fyw ar ei orau – mae'n galonogol, yn gydweithredol ac yn ysgogi dawnsio.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/dionne.bennett>

Gwefan: <https://www.simonkingmanmusic.com/the-pepperseeds>

Gwybodaeth am Artistiaid – Dydd Sul

Town Centre Performance Area - Opposite the Castle / Sports Direct

Bryony Sier

Mae Bryony Sier yn gantores-gyfansoddwraig pop gwerin niwroamrywiol o Dde Cymru, sy'n cyfuno adrodd straeon twymgalon â hunaniaeth ranbarthol unigryw. Er bod ei harddull lleisiol yn cario'r cynhesrwydd, agosatrwydd a swyn naratif sy'n aml yn gysylltiedig â sîn werin gwlad Nashville, mae ganddi acen amlwg y Cymoedd sy'n cadw naws diwylliant Cymreig – gan greu llais cerddorol unigryw a sylfaenol.



Gydag enw da sy'n tyfu fel perfformiwr byw cymhellol, mae Bryony wedi ymddangos mewn gwyliau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys The British Country Music Festival, Gŵyl Rhyngwladol FOCUS Wales, The Big Church Festival, Nozstock, Gŵyl Sŵn, Gŵyl Jazz Aberhonddu, a Gŵyl Big Love, ymhlith llawer mwy. Mae ei pherfformiadau yn boblogaidd am eu didwylledd, eu dyfnder emosiynol a'u cysylltiad naturiol â chynulleidfaoedd.

Gan ehangu ei chyrhaeddiad y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig, fe wnaeth Bryony chwarae ei sioe ryngwladol gyntaf ym Madrid ym mis Ionawr, gan nodi cam cyffrous yn ei thaith artistig ac arwydd o'i hapêl fyd-eang sy'n dod i'r amlwg. Ochr yn ochr â hyn, cafodd ei chydabod gyda gwobr y Band Jyngl Gorau, gan dynnu sylw at ei hyblygrwydd a'i gallu i symud ar draws arddulliau cerddorol a mannau

creadigol.

Mae cyfansoddi caneuon Bryony yn adlewyrchu profiad personol a themâu ehangach o hunaniaeth, gwytnwch a hunanfynegiant – wedi'u siapiau yn rhannol gan ei phersbectif niwroamrywiol. Mae'r dilysrwydd hwn yn atseinio'n gryf yn ei cherddoriaeth, gan gynnig rhywbeth perthnasol ac adfywiol onest i wrandawyr.

Mae disgwyl i'w halbwm cyntaf gael ei ryddhau ym mis Awst, ac mae Bryony Sier yn sefydlu ei hun fel llais newydd cyffrous yn nhirwedd pop gwerin gyfoes y Deyrnas Unedig, gan gyfuno traddodiad adrodd straeon â dull modern, hyblyg o ran genre.

Dilynwch ar Facebook;: <https://www.facebook.com/search/top?q=bryony%20sier%20music>
Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/bryonysiermusic/>

The Kingman Project



Mae The Kingman Project yn grŵp o Gaerdydd sy'n dod â chenedlaethau o dalent gerddorol Cymreig at ei gilydd, wedi'i adeiladu o amgylch partneriaeth greadigol y ddeuawd tad a mab Simon a Ruben Kingman.

Ac yntau wedi'i sefydlu fel man cydweithredol i archwilio eu dylanwadau cerddorol ar y cyd, mae'r prosiect yn cyfuno profiad ac arbrofi, gan gyfuno

degawdau Simon o berfformio, cyfansoddi ac addysgu gyda dull modern Ruben fel gitarydd, ysgrifennwr a chynhyrchydd.

Mae Simon Kingman yn ffigwr sefydledig yn y sîn gerddoriaeth Gymreig, sy'n enwog am ei waith ar draws genres jazz, enaid, blues a ffync, ac am ei rolau mewn prosiectau fel Zervas & Pepper, Melopark a The Pepperseeds. Mae ei arddull gitâr fynegiannol a'i wybodaeth gerddorol ddofn yn darparu sylfaen gadarn i sain y grŵp.

Mae Ruben Kingman yn cynrychioli'r genhedlaeth nesaf o gerddorion Cymreig, gan ddod ag ochr arbrofol i'r prosiect. Mae ei waith yn rhychwantu blues gwerin, cyfuniad jazz, dylanwadau Lladin ac enaid seicadelig, ac mae wedi perfformio gyda grwpiau newydd fel Nookee a Black Elvis.

Gyda'i gilydd, maen nhw'n arwain ensemble hyblyg o gerddorion o safon uchel – gan gynnwys adrannau rhythm a chydweithwyr gwadd – gan greu sain sy'n symud yn llyfn ar draws jazz, enaid, blues, ffync, gwerin ac Americana.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/simon.kingman>

Dilynwch ar Instagram: <https://www.instagram.com/kingmanproject/>

Gwefan: <https://www.simonkingmanmusic.com/the-kingman-project>

Mic & Fins



Deuawd Gwerin Gymreig a Cherddoriaeth Gwlad yn cynnwys Fin Humphries a Michaela Warne, mae Mic & Fins yn ddeuawd acwstig, a ddatblygodd o gariad cyffredin dau fyfyrwr prifysgol a wnaeth benderfynu uno eu doniau. Fe wnaeth Michaela, gyda'i llais cryf, a Fin gyda'i gymysgedd o strymian a meistrolaeth arddull bysedd, ddarganfod yn gyflym fod eu

harddulliau cerddorol yn cysoni'n ddi-ffael. Mae eu cerddoriaeth yn gyfuniad nodedig o werin, indie, a phop.

Mae Mic & Fins yn rhoi eu stamp ar ganeuon dynwarediad, ond maen nhw'n arllwys eu profiadau a'u hemosiynau a rennir yn eu caneuon hunan-ysgrifenedig ac yn angerddol am ddefnyddio eu cerddoriaeth i ddod â chysur cathartig ac iachol i'w gwrandawyr. Maen nhw'n cerfio presenoldeb ar-lein drwy rannu caneuon dynwarediad a gwreiddiol ar Spotify, YouTube, TikTok, Facebook, ac Instagram.

Dilynwch nhw ar Facebook: <https://www.facebook.com/micsandfins>

Dilynwch nhw ar Instagram: <https://www.instagram.com/micsandfins/>

Dolen i gerddoriaeth:

<https://open.spotify.com/artist/7mEtUnOwTW0ZdpOLdNmG3n?si=dBjU3sfaQ06E6oQS9KZjIQ>

Hot Gin Swing Duo



Mae'r Hot Gin Duo, Mark a Louise, yn dod â chymysgedd disglair o swyn, talent, a cherddoriaeth fythol yr holl ffordd o Benarth, De Cymru. Mae lleisiau gwrywaidd a benywaidd cyfoethog ynghyd â gitâr acwstig lyfn, yn cyflwyno set fywiog sy'n llawn caneuon poblogaidd a chlasuron bythgofiadwy o'r 1950au, 60au a 70au. O wrando hamddenol i eiliadau o gyd-ganu llawn egni, mae eu repertoire sy'n rhychwantu genres yn gwarantu rhywbeth i bawb.

Mae Mark a Louise yn berfformwyr profiadol gyda blynyddoedd o brofiad, sydd hefyd yn enwog am eu gwaith gyda'r bandiau poblogaidd St Louis Express a Hot Gin Swing. Mae eu hyblygrwydd cerddorol yn disgleirio ym mhob perfformiad, gan symud yn ddi-dor rhwng arddulliau wrth gynnal

sain soffistigedig a phroffesiynol. Mae eu cemeg naturiol ar y llwyfan yn heintus, gan ddenu cynulleidfaoedd a chreu awyrgylch sydd mor ddifyr i'w wyllo ag y mae dawnsio iddo.

Mae hanes trawiadol sy'n cynnwys perfformiadau ar gyfer BBC News ym Mryste, yn ogystal â pherfformiadau rheolaidd mewn bwytai, priodasau, gwyliau, sioeau theatr, a digwyddiadau arbennig, yn golygu bod Hot Gin Duo yn gwybod yn union sut i ennill sylw cynulleidfa. Maen nhw hefyd yn angerddol am gefnogi cerddoriaeth fyw ar lawr gwlad, gan gynnal nosweithiau meic agored bywiog wythnosol sy'n dod â chymunedau at ei gilydd.

Yn gynnes, yn diddorol, ac yn ddifyr yn rhwydd, mae Hot Gin Duo yn addo perfformiad llawn hiraeth, egni, a llawenydd cerddorol pur.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/profile.php?id=100057394603438>

Dilynwch ar YouTube: [YouTube/St Louis Express](#)



Ali 'Shai' Boksh (Prif Lwyfan)

Mae Ali 'Shai' Boksh yn weithiwr ieuenctid a chymunedol, cynhyrchydd creadigol a chyflwynydd digwyddiadau uchel ei barch o Gasnewydd. Mae'n gyd-sylfaenydd a chyfarwyddwr Urban Circle Casnewydd, sefydliad llawr gwlad sydd wedi ymrwymo i rymuso pobl ifanc trwy'r celfyddydau, y cyfryngau ac ymgysylltu diwylliannol.

Gyda mwy na 15 o flynyddoedd o brofiad yn y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a statudol, mae Shai wedi dod yn gymeriad amlwg yn y sin greadigol a datblygu cymunedol yng Nghasnewydd. Chwaraeodd rhan allweddol yn y gwaith o lansio Newport City Radio (Urban Circle Radio yn wreiddiol)

yn 2007, sydd wedi tyfu'n blatfform hollbwysig i leisiau lleol, gan gyrraedd mwy na 100,000 o wrandawyr.

Yn adnabyddus am ei garisma, ei gymeriad cynnes a'i gysylltiad dwfn â'r gymuned, daw Shai ag egni a dilysrwydd i bob digwyddiad y mae'n ei gyflwyno – boed yn arddangosfa dalent ieuenctid, gŵyl ddiwylliannol neu'n ddathliad cymunedol.

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/ShaiUK>

Richard Robling (Ardal Gerddoriaeth y Dref, Dydd Sadwrn)



Mae Richard Robling yn gerddor, yn gyhoeddwr cymunedol ac yn drysor lleol!

Mae Richard Robling yn ganwr, gitarydd a chyfansoddwr caneuon o Gaerleon. Yn adnabyddus am ei lais cynnes a'i arddull acwstig ar y gitâr, mae Richard yn perfformio cerddoriaeth o bob math gan gynnwys baladau clasurol, sgiff, gwerin a rhai o'i hoff ganeuon cyfoes, ynghyd â rhai o'i ganeuon gwreiddiol ei hun. Mae'n perfformio'n rheolaidd mewn lleoliadau lleol fel The Bell Inn yn ystod Gŵyl Caerleon.

Y tu hwnt i'r llwyfan, cafodd Richard effaith barhaus ar y gymuned trwy ei waith gyda Music in Hospitals & Care lle mae wedi perfformio ers 2015. Mae ei berfformiadau twymgalon a hiraethus wedi dwyn llawenydd i wardiau ysbytai a chartrefi gofal ledled Cymru, yn enwedig ymysg pobl sy'n byw gyda dementia. Maen nhw'n adnabyddus

am ennyn emosiwn a momentau o gysylltiad sy'n gallu bod yn wyrthiol yn aml.

Roedd Richard hefyd yn cyfrannu at fywyd lleol fel sylfaenydd a chyhoeddwr hirdymor Caerleon Community Times, cylchgrawn misol y bu'n ei rhedeg o 2008 hyd nes iddo ymddeol yn 2024.

Follow on Facebook: <https://www.facebook.com/richard.robbling.9>

Link to music: www.youtube.com/watch?v=oYvKrWKXmOs

Susie Webb (Ardal Gerddoriaeth y Dref, Dydd Sul)



Mae Susie Webb yn gantores arobryn (Post Modern Shoebox ac Apersand), hyfforddwr llais, arweinydd côr a darlledwr gydag angerdd gydol oes am ddod â phobl at ei gilydd trwy gerddoriaeth. Fel sylfaenydd Singergise Ltd a chrëwr y profiad poblogaidd DJ4aDay CIC, mae hi wedi treulio mwy na 25 mlynedd yn helpu pobl i ddod o hyd i hyder, creadigrwydd a llawenydd trwy berfformio.

Ochr yn ochr â'i gwaith fel tiwtor cerddoriaeth peripatetig i Cerdd Gwent, mae Susie yn cyfarwyddo corau, yn arwain gweithdai ac wedi bod yn diddanu gwrandawyr fel cyflwynydd a DJ ar Radio SW20 am y chwe blynedd diwethaf. P'un a ydy hi'n perfformio ar y llwyfan, yn dysgu mewn ysgolion, neu'n

cynnal digwyddiadau byw, mae ei brwdfrydedd a'i chariad at gerddoriaeth yn disgleirio ym mhopeth y mae hi'n ei wneud.

Mae Susie yn falch iawn o gael gwahoddiad i gynnal Gŵyl Caws Caerffili eleni ac mae'n edrych ymlaen at helpu creu awyrgylch gwych i ymwelwyr, perfformwyr ac arddangoswyr fel ei gilydd. Mae hi'n edrych ymlaen at ddathlu'r dalent leol orau, ysbryd cymunedol ac, wrth gwrs, caws gwych!

Dilynwch ar Facebook: <https://www.facebook.com/chatnchoons>